



National Joint Registry

www.njrcentre.org.uk

Working for patients, driving forward quality



CLUNIAU



PENGLINIAU



FFERAU



PENELINOEDD



YSGWYDDAU



PROMs



15fed Adroddiad Blynnyddol

2018

Cofrestrfa Genedlaethol
y Cymalau dros Loegr,
Cymru, Gogledd Cymru
ac Ynys Manaw

Paratowyd gan

Bwrdd Golygyddol yr NJR

Aelodau Pwyllgor Llywio'r NJR

Mr Martyn Porter (Cadeirydd, y Bwrdd Golygyddol)
Mr Peter Howard
Sandra Lawrence
Yr Athro Mike Reed
Jeffrey Stonadge
Yr Athro Mark Wilkinson

Cynrychiolwyr RCC yr NJR

Mr Matthew Porteous (Cadeirydd, Rhwydwaith RCC)
Mr Sebastian Dawson-Bowling
Mr Adam Watts

Arbenigwyr Orthopedig

Mr Richard Craig
Mr Colin Esler
Mr Andy Goldberg
Yr Athro Jonathan Rees

Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd

Tîm Rheoli'r NJR a Chyfathrebu'r NJR

Elaine Young
Deirdra Taylor

Northgate Public Services

Canolfan yr NJR, TG a rheoli data

Victoria McCormack
Anita Mistry
Dr Claire Newell
Dr Martin Pickford
Martin Royall
Mike Swanson

Prifysgol Bryste / Prifysgol Rhydychen

Cefnogaeth ystadegol, dadansoddi a thîm ymchwil yr NJR

Yr Athro Yoav Ben-Shlomo
Yr Athro Ashley Blom
Dr Emma Clark
Kevin Deere
Dr Celia Gregson
Dr Linda Hunt
Yr Athro Andrew Judge
Sofia Mouchti
Yr Athro Andrew Price
Adrian Sayers
Mr Michael Whitehouse

Pad Creative Ltd (dylunio a chynhyrchu)

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ffurf PDF i'w lawrlwytho o wefan Adroddiadau'r NJR yn www.njrreports.org.uk. At hyn, mae data a gwybodaeth ychwanegol i'w gweld fel yr amlinellir ar dudalennau 18-19.

Rhagair y Cadeirydd

Laurel Powers-Freeling, Cadeirydd Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau

Goruchwylia Pwyllgor Llywio Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau raglen waith strategol a gweithredol y gofrestrfa. Fel Cadeirydd, ac yn fy rôl ers chwe blynedd, mae hi wastad yn bleser cynnig rhagair i'n hadroddiad blynyddol, sydd bellach yn arddangos ein gwaith yn ei 15fed argraffiad, a rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch datblygiadau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn flaenorol, 2017/18.

Gwaith a datblygiadau allweddol

Mae gwella ansawdd data wedi parhau'n flaenoriaeth strategol wrth i ni barhau i archwilio ansawdd ein data cenedlaethol eleni. Bwriad y gwaith yw asesu cyflawnder ac ansawdd y data a gyflwynir i'r gofrestrfa gan fod casglu'r data mwyaf priodol ac o'r ansawdd uchaf yn hanfodol i waith yr NJR iddi roi tystiolaeth gadarn i gefnogi gwaith gwneud penderfyniadau yng nghyswllt diogelwch cleifion, safonau mewn ansawdd gofal a chost-effeithiolrwydd cyffredinol llawfeddygaeth newid cymalau. Eleni, mae'r NJR wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol i gefnogi Tîm Sicrhau Ansawdd Data i weithio gydag ysbytai i sicrhau cwblhau eu hoffer archwilio'r NJR. Rydym hefyd wedi dechrau ystyried sut y gallwn ddefnyddio awtomatiaeth i hwyluso'r broses a bwydo canlyniadau'n ôl i ysbytai, gyda chanlyniadau cynnar, calonogol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar awtomatiaeth y flwyddyn nesaf gyda'r nod y daw i ennill ei phlwyf ym mhob ysbyty.

Eleni, bu i Elaine Young a minnau hwyluso gweithdy gyda'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cymdeithasau proffesiynol, y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), NHS England, NHS Improvement, gwneuthurwyr, Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (yr MHRA) ac eraill, i ddatblygu Cynllun Strategol yr NJR am y tair blynedd 2018-2021. Mae'r cynllun yn nodi themau strategol allweddol sy'n llywio'n rhaglen waith a'n blaenoriaethau bob blwyddyn. Nid yw'n syndod mai diogelwch y claf yw ein thema gyffredinol – ond cefnogir hyn gan feysydd gwaith pwysig eraill, yn gynnwys pa wybodaeth sydd ar gael a phryd, a



mynediad at ddata, gwaith ymchwil, ansawdd data, cydweithrediad rhyngwladol, datblygu gwasanaethau gwaith cyfathrebu â rhanddeiliaid a model gweithredu'r NJR. Mae modd lawrlwytho'r cynllun o wefan yr NJR.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd grŵp adolygu'r NJR dan gadeiryddiaeth Matthew Porteous, Cynrychiolydd llawfeddygon Pwyllgor Llywio'r NJR, adolygiad o'r data y casglwn ar weithredoedd newid cymalau fel rhan o'r Set Ddata Sylfaenol (MDS). Cwblhawyd MDS fersiwn 7 wedi ymgynghori'n helaeth â chymdeithasau proffesiynol a Chydgysylltwyr Clinigol Rhanbarthol yr NJR ac aeth yn fyw ym Mehefin 2018. Yn ogystal â newidiadau i'r data a gasglwn i adlewyrchu esblygiad mewn ymarfer clinigol a datblygiadau mewn technoleg impio, uwchraddwyd hefyd ryngwyneb y defnyddiwr ar y rhaglen cofnodi data.

Mae gwaith casglu Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) yn parhau'n flaenoriaeth i'r NJR. Eleni bu i ni ddechrau'r dilyniant rheolaidd chwe mis gyda gweithredoedd newid cymal yr ysgwydd i gleifion oedd wedi cael llawdriniaeth ar ôl 1 Hydref 2016. Bydd dilyniant tair blynedd yn dechrau yn 2019. Mae gwaith yn mynd rhagddo i offen canlyniadau o ddilyniant pum mlynedd PROMs clun a phen-glin a bydd

gweithgor sydd newydd ddod at ei gilydd yn ystyried y strategaeth ar gyfer PROMs yr NJR i'r dyfodol.

Mae gwaith ar ddatblygu systemau gwybodaeth ac Adborth yr NJR wedi cynnwys aildosbarthu ac ailstrwythuro cronfa ddata gydrannol yr NJR. Mae'r NJR wedi cydweithredu gyda chofrestfa'r Almaen a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyflenwyr, ar y maes gwaith pwysig hwn a bydd gwaith aildosbarthu dyfeisiau cluniau, pengliniau ac ysgwyddau yn cael ei gwblhau yn 2018/19. Hefyd, mae gwelliannau i systemau Adborth Clinigwyr ac Adborth Rheolwyr yr NJR ac Adroddiadau Lefel Ymgynghorwyr wedi sicrhau ein bod yn parhau i wella'r ffordd y mae'r NJR yn rhoi gwybodaeth i'n rhanddeiliaid.

Cynlluniau am y flwyddyn i ddod 2018/19

Yn ychwanegol at ein rhestr graidd o weithgareddau a gwaith datblygu parhaus nifer o ffyrddau gwaith a ddisgrifir uchod, bydd yr NJR yn:

- Gweithio gyda Northgate Public Services a Phrifysgol Sheffield yn y gwaith terfynol o ddiogelu'r Porth Mynediad Data a'i roi ar waith yn fyw fel dull allweddol i randdeiliaid yr NJR gael mynediad at ddata.
- Gweithio gyda Phrifysgolion Sheffield a Briste i gyflawni fersiwn ar y we o Offer i Gynorthwyo Cleifion i wneud Penderfyniadau fel bod modd i weithwyr iechyd proffesiynol, cleifion a'u teuluoedd rannu'r penderfyniad wrth ystyried newid clun neu ben-glin.
- Ailddatblygu gwefan yr NJR i'w gwneud yn fwy deniadol ac yn haws i'w defnyddio, gyda phorth penodol o wybodaeth ddefnyddiol i gleifion a'u gofalwyr.
- Rhoi argymhellion adroddiad y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd (yr HSIB) ar waith o ran impio prothesisau anghywir yn ystod llawfeddygaeth newid cymal. Mae'r NJR yn croesawu adroddiad yr HSIB ac mae eisoes yn gweithio i fwrw ymlaen gyda'r weithred gysylltiedig o ran dull rhybuddio cronfa ddata'r NJR, er mwyn diogelu cleifion hyd yn oed yn fwy.

Cydnabyddiaeth

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu nifer o newidiadau i aelodaeth Bwrdd Llywio'r NJR. Ymhlith aelodau a adawodd Pwyllgor Llywio'r NJR roedd aelod gynrychiolydd y cleifion, Sue Musson a chynrychiolwyr diwydiant, Nick Wishart a Michael Green. Hoffwn ddatgan fy niolchiadau cywir iddynt i gyd – i Sue am ei gwaith rhagorol fel 'hyrwyddwr' cleifion a'i chefnogaeth wrth godi ymwybyddiaeth o safbwynt y claf mewn llawer o'n digwyddiadau NJR; ac i Nick a Michael am eu cyngor a'u mewnbwn ar ran y gwneuthurwyr impiadau orthopedig.

Ymhlith yr aelodau a gafodd estyniad i'w haelodaeth o Grŵp Llywio'r NJR mae: Mr Peter Howard a'r Athro Amar Rangan, aelodau llawfeddygon, hyd at Fai 2020 a Mai 2021 yn y ddau achos; Mr Rob Hurd, cynrychiolydd rheolaeth ymddiriedolaeth y GIG hyd at Fehefin 2020; yr Athro Mark Wilkinson, cynrychiolydd iechyd y cyhoedd / epidimioleg hyd at Ionawr 2022 a Gillian Coward, cynrychiolydd y cleifion hyd at Fedi 2022.

Hefyd cafodd Mr Martyn Porter, Is-gadeirydd a Chyfarwyddwr Meddygol yr NJR estyniad i'w aelodaeth hyd at Ragfyr 2018, pryd bydd ei dymor olaf yn dod i ben. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo gyda Thim Penodiadau'r Adran Iechyd i recriwtio olynedd Martyn yn ogystal ag aelod glaf newydd yn lle Sue Musson.

Ymhlith yr aelodau newydd a benodwyd mae'r Athro Mike Reed fel cynrychiolydd y llawfeddygon, yr Athro Karen Barker fel chynrychiolwyr Ymarferwyr â Diddordeb Arbennig mewn Orthopedeg a Sandra Lawrence a Jeff Stonadge, fel cynrychiolwyr y Gwneuthurwyr Impiadau Orthopedeg. Hoffwn achub ar y cyfle i groesawu'r holl aelodau newydd hyn i Bwyllgor Llywio'r NJR gan edrych ymlaen at weithio gyda nhw yn y dyfodol.



Hoffwn hefyd ddiolch i Ananda Nanu am ei gyfraniad sylweddol eleni fel aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Llywio yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd Cymdeithas Orthopedig Prydain (BOA), sydd wedi bod yn arwyddocaol i'r NJR wrth barhau gyda'n perthynas werthfawr gyda'r proffesiwn orthopedig. Edrychaf ymlaen at groesawu ei olynydd sy'n dechrau yn ei swydd ym mis Medi.

Hoffwn orffen trwy ddiolch i holl aelodau Pwyllgor Llywio'r NJR, a'i is-bwyllgorau, am eu cyfraniad, cefnogaeth a'u brwdfrydedd gwerthfawr. Yn enwedig felly, diolch arbennig i Mr Martyn Porter, yn ei dymor olaf, am ei gyfraniad gwerthfawr a'i ymroddiad parod wrth ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Meddygol yr NJR fel y person cyntaf i'w benodi i'r swydd hon. Rwyf wedi gwerthfawrogi ei gyngor a'i gefnogaeth aruthrol yn fawr. Hefyd diolch i gadeiryddion pob un o'r is-bwyllgorau am eu gwaith caled a'u syniadau. Heb eu hymroddiad, ni fyddai'r NJR y gofrestrfa cymalffurfiad arloesol sy'n arwain y byd ag ydyw. Buaswn yn eich annog i ddarllen ac adolygu adroddiadau cadeirydd pob pwyllgor yn www.njrreports.org.uk lle rhoddant ddarlun cyffredinol strategol ac ymwybyddiaeth broffesiynol o feysydd gwaith allweddol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Elaine Young, Cyfarwyddwr diflino'r NJR a'i thîm, yn ogystal ag i'n partneriaid contract Northgate Public Services (UK) Ltd a Phrifysgol Bryste am eu holl waith caled a'u hymdrechion trwy gydol y flwyddyn wrth fwrw ymlaen gyda rhaglen waith yr NJR.

Laurel Powers-Freeling

Cadeirydd Pwyllgor Llywio
Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau

Crynodeb Gweithredol

Mr Martyn Porter, Cyfarwyddwr Meddygol yr NJR a Chadeirydd y Bwrdd Golygyddol

Ar 31 Mawrth 2018, dathlodd yr NJR 15 mlynedd o gasglu data pryd roedd 2,520,000 o weithredoedd wedi'i cofrestru. Camp nid ansylweddol!

Prif benawdau a llwyddiannau yn 2017/18

Mae'r NJR wedi canolbwyntio llawr ar ansawdd data dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n parhau i wneud hynny. Dim ond trwy ddarparu a dadansoddi data o ansawdd uchel sy'n gyflawn a chywir y bydd amryfal randdeiliaid yr NJR yn parhau i gredu yn y gofrestrfa.

Bellach mae'r gwaith archwilio ansawdd data wedi ymestyn i gynnwys y sector annibynnol. Cydymffurfiodd y sector yn rhagorol gyda'r gwaith archwilio ac mae cynlluniau ar droed i ymgorffori cryn dipyn o awtomatiaeth yn y broses hon i ostwng y baich ar yr ysbytai.

Mae'r archwiliad ei hyn yn nodi achosion nad ydynt wedi'u cofrestru gyda'r NJR ond a gofnodwyd ar systemau ysbytai, gan wella cydymffurfiaeth â'r NJR ymhellach. Mae union gyfrifiadau cydymffurfio'n gymhleth ond wrth ddod i gasgliad yn adroddiad archwilio 14/15, roedd oddeutu 95% o'r holl lawdriniaethau clun a phen-glin cychwynnol wedi'u cofrestru a 90% o'r holl ddiwygiadau.

O fewn y flwyddyn, mae'r NJR wedi gweithio'n galed i ddatblygu ei Fodel Atebolrwydd a Thryloywder. Ddwywaith y flwyddyn mae'r NJR yn cynnal dadansoddiad strwythuredig o ddiwygiadau a marwolaethau ôl-lawdriniaeth i nodi amrywiadau annisgwyl o ran ysbytai a llawfeddygon unigol.

Mae'r NJR yn gweithio gyda BOA, CQC ac NHS Improvement i sicrhau y cynhelir y camau llywodraethiant priodol yn amserol. Mae symposiwm yr NJR yng Nghyngres 2018 BOA, sy'n dwyn y teitl, "How to use NJR data responsibly to improve care", yn cynnwys defnyddio data i wella canlyniadau o bosib yn ogystal â nodi achosion sy'n peri pryder.



Cefnogir hyn ymhellach gyda gwelliannau i'r adroddiad lefel ymgynghorwyr sydd ar gael o borth cyfraniad clinigwyr. Trwy roi mwy o fanylion a rhybuddion cynnar i lawfeddygon ynghylch perfformiad andwyol posib, y gobaith yw bod modd rhoi sylw i unrhyw faterion cyn iddynt ddatblygu'n broblem. Ethos y gofrestrfa yw ei gwneud yn bosib i lawfeddygon ymarfer yn ddiogel yn hytrach na'u rhybuddio am faterion a allai fod yn groes i ganlyniadau disgwylledig.

Hefyd, mae'r set ddata wedi'i diweddaru eleni. Bydd un o'r newidiadau bellach yn fodd i gofrestru'r Gweithredoedd Digramennu a Chadw Impiad a ddefnyddir wrth drin cymalau newydd sydd wedi'u heintio yn y cyfnodau cynnar ar ôl llawfeddygaeth fel math gweithred ar wahân, yn wahanol i ddiwygiad un cam dan yr hyn y cawsant eu cofnodi'n flaenorol. I ateb y ddadl y gallai hyn annog llawfeddygon i beidio â chyfnewid y cydrannau modiwlwr, caiff gwaith golchi allan a digramennu syml ei gofnodi hefyd. Bydd y newidiadau hyn yn fodd i asesu'r gweithredoedd hyn yn gwirach ac yn fanylach mewn perthynas â llawfeddygaeth ddiwygio yn hwyrach ymlaen y gellid bod ei hangen ar gyfer haint dwfn.

Mae cronfa ddata gydrannol yr NJR yn y broses o gael ei hailddylunio fel bod modd dadansoddi'n fanylach mathau'r cydrannau a gaiff eu himpio. Dylai hyn arwain at ddealltwriaeth well o sut gallai priodoleddau dyfeisiau gael effaith ar eu perfformiad.

Mae'r NJR yn parhau i weithio'n agos gyda GIRFT, ODEP a Beyond Compliance ac wedi cryfhau ei pherthynas â nhw. Hefyd, mae'r NJR yn cydweithio â chofrestrfeydd newid cymalau rhyngwladol eraill ac mae'n rhan o ISAR – Cymdeithas Ryngwladol Cofrestrfeydd Cymalffurfiad. Cynhaliwyd symposium 2018 yn Reykjavik, Gwlad yr Iâ ym Mai 2018. Cafodd yr NJR ei chynrychioli hefyd yng nghyfarfod EFORT (Ffederasiwn Orthopedeg a Thrawmatoleg Ewropeaidd) yn Barcelona ym Mehefin 2018. Ar gydweithio, rhannu canfyddiadau ymchwilio cofrestrfeydd, datblygu methodolegau newydd, trafod budd PROMs (Mesuriadau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion), Canfod yn gynnar a meincnodi dyfeisiadau yr oedd y gwaith rhyngwladol hwn yn canolbwyntio.

Prif Benawdau ar gyfer 2017: Canlyniadau)

Mae'r data'n ychwanegu at ganfyddiadau'r llynedd a phrif neges yr adroddiad yw bod amcangyfrifon diwygiadau yn dilyn llawfeddyginiaeth newid cymal yn parhau'n isel.

Mae'r data wedi'u strwythuro i ddangos effaith ffactorau cleifion ac impiadau ar amcangyfrifon diwigiadau. Er enghraifft, ymhlith ffactorau cleifion mae rhyw ac oedran adeg y llawfeddygaeth, tra bo math y gosodiad, brand, beryn a maint y pen ymhlith ffactorau impiadau. Mae'r ddatl wedi symud yn ei blaen o gymharu dull gosod i un o gymharu 'gosodiadau' newid cymal. Mewn amnewidiad clun, er enghraifft, byddai gosodiad yn cynnwys disgrifiad o frand y soced, bony'n ffemwrol a deunydd beryn. Yr 'amnewidiad cyfan' sy'n bwysig i'r claf yn hytrach na'r cydrannau unigol neu ddull y gosodiad.

Mae gan rai gosodiadau clun amcangyfrifon diwygio cyn ised â 2% ar 14 mlynedd ac mae gan rai frandiau pen-glin amcangyfrifon diwygio cyn ised â 3% ar 14 mlynedd. Mae'r canlyniadau hyn yn eithaf rhyfeddol o ran canlyniadau i gleifion a gwerth i'r trethdalwr.

Er bod amrywiaeth mewn amcangyfrifon diwygio ar gyfer impiadau, parhau mae'r claf i fod yn ffactor mawr mewn canlyniadau. Yn arbennig felly, y claf ifanc sydd â'r risg diwygio llawer uwch o gymharu â chleifion hŷn. Er enghraifft ar gyfer amnewidiadau clun mewn cleifion gwrywaidd dan 55 mlwydd oed adeg y llawfeddygaeth, bron i 16% ar 14 mlynedd yw'r amcangyfrif diwygio, at ei gilydd, o gymharu â 2.5% yn unig mewn cleifion gwrywaidd dros 75 mlwydd oed. Mae patrwm tebyg i'w weld mewn amnewidiadau pen-glin gydag amcangyfrifon o bron i 15% ar 14 mlynedd mewn cleifion benywaidd ieuangach na 55 mlwydd oedd adeg y llawfeddygaeth o gymharu â 2.5% yn unig mewn cleifion benywaidd dros 75 mlwydd oed.

Nid yw hyn yn golygu y dylid amddifadu cleifion ifanc o llawfeddygaeth newid cymal oherwydd eu bod yn ifanc a bod risg uchel iddynt gael diwygiad, ond mae'n golygu y dylai llawfeddygon a chleifion fod yn ymwybodol o'r ffeithiau hyn er mwyn hwyluso 'gwneud penderfyniadau ar y cyd'. Yn hyn o beth, gallai 'cyfrifiannell risg' a ddatblygwyd gan Mark Wilkinson a'i dîm ymchwil yn Sheffield brofi i fod yn amserol. Nid yw cyfrifiannellau risg yn gysyniad newydd ond mae model yr NJR yn dod at ddiwedd ei gyfnod datblygu a dylai fod ar gael ar gyfer profion clinigol yn gynnar yn 2019. Y nod yw gallu cofnodi gwybodaeth am gleifion unigol megis oedran, rhyw, BMI ac ati ac i'r offeryn ddarogan tebygolrwydd ar gyfer diwygiad, marwolaeth neu fesuriadau canlyniadau a adroddir gan Gleifion (PROMs) mewn 'claf fel nhw'. Mae gwyddoniaeth a'r fethodoleg y tu ôl i hyn yn gymhleth a'r dangosyddion cyfredol yw mai cymharol ar y gorau yw'r grym a broffwydir ond mae'n sicr yn welliant ar y cyngor cyffredinol cyfredol ar risg a roddir i gleifion. Rhagwelir y caiff yr offer hyn eu defnyddio gyda chleifion allanol gan y llawfeddyg a'r claf i hwyluso 'gwneud penderfyniadau ar y cyd'.

Mewn perthynas â llawfeddygaeth i newid pen-glin, mae cyfraddau diwygio yn uwch ar gyfer newid pen-glin rhannol o gymharu a newid pen-glin cyfan. Fodd bynnag, dengys data bod cyfraddau marwolaethau'n is a bod llai o gymlethdodau gydag amnewidiadau rhannol na chyda newid pen-glin cyfan. Mae effaith nifer y llawfeddygon yn bwysig hefyd. Rôl yr NJR yw peidio â diystyrru llawfeddygaeth newid pen-glin

rhannol, ond byddai'n ddoeth ystyried goblygiadau'r ffactorau eraill hyn ac, o bosib, gyfyngu ar weithgaredd llawfeddygol i lawfeddygon sydd â digon o nifer ac a all gyflawni cyfraddau diwygio isel.

Mae llawr o waith wedi'i wneud ar ddosbarthu cydrannau a ddefnyddir mewn llawfeddygaeth newid ysgwydd. Nid mater syml, didrafferth yw hwn oherwydd bod y plethora o impiadau sydd ar gael a'r dulliau a ddefnyddiant i gyfuno'n gymhleth. Mae'r adran ar newid ysgwydd yn creu argraff fawr diolch i'r gwaith dosbarthu hwn. Mae amcangyfrifon ar gyfer amnewidiadau ysgwydd dewisol mewn cleifion gwrywaidd dros 75 mlwydd oed oddeutu dwbl y rheiny ar gyfer cleifion benywaidd yn yr un grŵp oedran.

Cynhelir dros 700 o weithredoedd newid ffêr y flwyddyn ac mae amcangyfrifon diwygio fymryn dan 9% ar saith mlynedd ar gyfer pob achos, ond mae amrywiaeth sylweddol i gluniau a phengliniau yn ôl rhyw ac oedran y claf.

Cydnabyddiaeth i gloi

Fel y crybwyllwyd ynghynt mae yna wybodaeth ychwanegol sylweddol ar gael ar lein a byddwn yn eich annog i edrych ar wefan adrodd bwrpasol yr NJR yn www.njrreports.org.uk. Mae'r wefan yn cynnig llwyfan rhyngweithiol defnyddiol ar gyfer Rhan 2 yr adroddiad, sef data disgrifiadol yr NJR; atodiadau ategol; a phan gânt eu cyhoeddi, Ganllawiau i adroddiad blynyddol yr NJR ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd.

Mae'r NJR yn parhau i weithio gyda llawer o randdeiliaid. Y rhai pwysicaf, wrth gwrs, yw'r cleifion a hoffwn ddiolch iddynt adael i'r NJR ddefnyddio'u data.

Diolch yn fawr iawn hefyd i'r isod; hebddynt ni allai'r NJR weithredu:

Holl aelodau Pwyllgor Llywio'r NJR

Aelodau o Is-bwyllgorau'r NJR:

Ansawdd Data
Golygyddol
Y Bwrdd
Y Pwyllgor Gwaith
Impiadau
Perfformiad
Craffu Impiadau
Yr Ymgynghoriaeth Feddygol
Cydgysylltwyr Clinigol Rhanbarthol
Ymchwil
Perfformiad Llawfeddygol

Aelodau o Grŵp Adolygu Mynediad at Ddata

Aelodau o Rwydwaith Cleifion yr NJR

Sefydliadau eraill:

MHRA
CQC
NHS England
NHS Improvement
Cymdeithas Orthopedg Prydain
BHS
BASK
BESS
BOFAS
HQIP
Northgate Public Services (UK) Ltd
Prifysgol Bryste
Prifysgol Rhydychen



Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch yn arbennig i Laurel Powers-Freeling, Cadeirydd yr NJR ac i Elaine Young, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r NJR.

Unwaith eto mae timau Northgate Public Services a Phrifysgol Briste wedi gwneud gwaith eithriadol.

Yn olaf, wedi gwasanaethu ar Bwyllgor Llywio'r NJR er dros 15 mlynedd, byddaf yn sefyll i lawr o'r NJR yn hwyrach ymlaen eleni. Rwyf wedi mwynhau'r profiad yn arw ac wedi dysgu llawer ohono. Diolch.

Mr Martyn Porter

Cyfarwyddwr Meddygol yr NJR a Chadeirydd y Bwrdd Golygyddol

1.1 Adroddiad Blynyddol Cyflwyniad

15fed Adroddiad Blynyddol Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau ar gyfer Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw (yr NJR) yw'r adroddiad cyhoeddus ffurfiol am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018 ac mae iddo nifer o rannau, wedi'u hamlinellu yn y tabl crynhoi sydd gyferbyn.

Fel rhan o'r dull gweithredu parhaus i rannu gwybodaeth am gynnydd, gweithgarwch clinigol a gweithgarwch ysbytai ac impiadau'r NJR, mae'r NJR wedi diweddaru'r data yn ei hadroddiad blynyddol ar lein bwrpasol, 'NJR Reports' er mwyn dangos data a gwybodaeth am yr adroddiad blynyddol.

Mae rhyw gymaint o'r data i'w gweld yn yr adroddiad argraffedig hwn – yn enwedig felly'r crynodebau gweithredol a'r dadansoddiad ystadegol, manwl a llawn canlyniadau yn dilyn llawfeddygaeth newid cymal.

Ceir crynodeb byr o gynnydd yr NJR yn ystod 2017/18 isod, yn Rhagair y Cadeirydd ac yng Nghrynodeb Gweithredol yr Adroddiad Blynyddol.

Mae gwybodaeth ac adroddiadau ychwanegol ar gael ar lein trwy 'NJR Reports' yn: www.njrreports.org.uk.

1.2 Cynnydd Blynyddol

Ar 31 Mawrth 2018, oddeutu 2.52 miliwn oedd cyfanswm nifer y gweithredoedd a gyflwynwyd i'r NJR. Ym mlwyddyn ariannol 2017/18, cyflwynwyd cyfanswm o 252,251 o gofnodion, sy'n gynnydd o 9,632 dros y flwyddyn flaenorol. Mae hyn er gwaethaf pryder bod nifer gyffredinol y gweithredoedd newid cymal a gynhaliwyd yn disgyn. Dangosodd dangosyddion perfformiad allweddol, at ei gilydd, y cofnodwyd:

- Cydsyniad cleifion (i ganiatáu cofnodi eu manylion personol yn yr NJR) yn 92.4%, gostyngiad o 0.3% o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd gydsynio ar gyfer Gogledd Iwerddon i 95.7% o 96.3% yn y flwyddyn flaenorol, tra bu i'r gyfradd gydsynio gyffredinol ar gyfer Lloegr, Cymru ac Ynys Manaw gynyddu 0.2%.

- Cysylltedd (y gallu i gysylltu gweithred gychwynnol claf â gweithred ddiwygiedig) yn 94.0%, cwmp o 1.4% ar y flwyddyn flaenorol.

Er y ceir amrywiad wrth gymharu blynyddoedd olynol, gellid priodoli'r cwmp yng nghyfraddau dangosyddion allweddol cydsynio a chysylltedd i ganlyniadau'r archwiliadau ansawdd data a gynhaliwyd eleni. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno'n ôl-weithredol weithredoedd coll na fydd cydsyniadau cleifion wedi'u cofnodi ar eu cyfer. Mae cysylltedd yn ddibynnol ar gyfradd gyflwyno niferoedd GIG ac, yng Ngogledd Iwerddon, HCN. Gweler yr adran cyflawnder data a dangosyddion ansawdd ar lein am ragor o fanylion.

Parhaodd yr NJR i ganolbwyntio'n bennaf ar ansawdd data yn 2017/18 trwy gynnal archwiliad ansawdd data am y drydedd flwyddyn ar draws holl unedau'r GIG ac unedau'r sector annibynnol. Yn sgil cyflwyno cofnodion coll 2014/15 a nodwyd gan yr archwiliad, mae gan y gofrestrfa bellach gyfradd cofnodi cleifion o fwy na 99% am y flwyddyn. Mae cyflwyno gweithredoedd diwygio'n amserol i'r NJR yn parhau'n bryder er y gwelwyd gwelliant yn yr ymwneud â'r unedau mewn cofnodi'n ôl-weithredol. Ewch i www.njrreports.org.uk am ragor o fanylion am yr archwiliad.

Gwnaed newidiadau arwyddocaol hefyd i Set Ddata Sylfaenol yr NJR gyda rhyddhau'r diweddariad newydd yn haf 2018. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu datblygiadau mewn arfer a thechnolegau clinigol gydag ychwanegu rhagor o fathau gweithredoedd a dulliau gweithredu llawfeddygol. Bydd gwaith casglu data ysgwyddau yn benodol yn gwella gyda chategorïau gweithredoedd newydd a nifer uwch o ddangosyddion am lawfeddygaeth.

Bydd mwy o wybodaeth am gynnydd a diweddariadau ar gael yn www.njrreports.org.uk a hefyd ar brif wefan yr NJR yn www.njrcentre.org.uk.



1.3 Crynodeb o'r cynnwys ar gyfer Adroddiad Blynyddol yr NJR

Adran	Crynodeb	Cynnwys	Gwybodaeth lawn ar gael yn
Rhan Un	Crynodebau gweithredol, cynnydd blynyddol ac uchelbwyntiau FY2017/18	Newyddion a gwybodaeth mewn crynodebau gweithredol, adroddiadau pwyllgor ac uchelbwyntiau am gynnydd yr NJR hyd at 31 Mawrth 2018	www.njrreports.org.uk
Rhan Dau	Gweithgarwch clinigol 2017	Ystadegau ar weithgarwch newid cymal ar gyfer gweithgarwch clun, pen-glin, ffêr, penelin ac ysgwydd ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr hyd 31 Rhagfyr 2017	www.njrreports.org.uk trwy adrodd rhyngweithiol
Rhan Tri	Canlyniadau ar ôl llawfeddygaeth newid cymal 2003-2017	Dadansoddiadau ystadegol manwl ar lawfeddygaeth newid clun a phen-glin gan ddefnyddio data o 1 Ebrill 2003 hyd at 31 Rhagfyr 2017. Cynhwysir hefyd ddadansoddiadau diweddar ar ddata ar gyfer fferau ac ysgwyddau sy'n ddata a gasglwyd er 1 Ebrill 2010 ac 1 Ebrill 2012 yn y ddau achos. Dadansoddiadau ar ddata dros dro ar gyfer penelinoedd gan ddefnyddio data a gasglwyd er 1 Ebrill 2012	Yn yr adroddiad argraffedig hwn a thrwy www.njrreports.org.uk
Rhan Pedwar	Gweithgarwch a chanlyniadau lefel impiad ac uned	Dangosyddion ar gyfer gweithredoedd newid cymal ar gyfer clun a phen-glin fesul Ymddiriedolaeth, Bwrdd Iechyd Lleol ac uned. Yn ogystal, sylwadau ar berfformiad impiadau a'r rhai hynny sydd â chyfraddau uwch na'r disgwyl o ddiwygio ac yr adroddwyd amynt i'r MHRA	www.njrreports.org.uk
Prothesisau	Defnyddio prothesisau yn ôl brand (impiadau)	Prothesisau a ddefnyddiwyd mewn llawdriniaeth newid cymal yn 2017 ar gyfer clun, pen-glin, penelin, ffêr ac ysgwydd	www.njrreports.org.uk
Atodiadau	Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â strwythur gweithredol a llywodraethu'r NJR	Cyfansoddiad, presenoldeb, datganiadau o ddiddordeb ar gyfer Pwyllgor Llywio, Is-bwyllgorau a chylch gorchwyl yr NJR	www.njrreports.org.uk
	Gwaith ymchwil	Papurau ymchwil a gyhoeddwyd ac a gymeradwywyd gan ddefnyddio data'r NJR	

2.1 Darlun cyffredinol o weithgarwch clinigol 2017

Mae Rhan Dau o 15fed Adroddiad Blynyddol yr NJR bellach i'w gweld ar lein trwy wefan bwrpasol NJR Reports y gofrestrfa yn: www.njrreports.org.uk.

Cyflwynna rhan Dau ddata ar weithgarwch clinigol yn ystod blwyddyn calendr 2017. Mae'n cynnwys gwybodaeth am niferoedd a thechnegau llawfeddygol mewn perthynas â gweithredoedd a gyflwynwyd i'r NJR, gyda'r data mwyaf diweddar yn ddata ar gyfer y flwyddyn 1 Ionawr 2017 hyd 31 Rhagfyr 2017. Er mwyn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, rhaid i'r holl weithredoedd fod wedi'u cofnodi yn yr NJR erbyn 28 Chwefror 2018.

Yn y dudalen ddwbl ar ddiwedd yr adroddiad ceir crynodeb gweledol o ffeithiau allweddol yn ymwneud â gweithgarwch clinigol yn ystod blwyddyn galendr 2017. Mae modd lawrlwytho hon hefyd fel poster ar gyfer yr ystafell aros trwy www.njrreports.org.uk.

Mae'r wybodaeth yn Rhan Dau bellach yn cynnwys data hanesyddol, gan fynd yn ôl i 2005 yn y rhan fwyaf o achosion. Gan ddefnyddio'r wefan bwrpasol, mae modd i ddarllenwyr ddefnyddio graffiau rhyngweithiol, hidladwy i adnabod y wybodaeth a'r tueddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r adroddiadau a ganlyn ar gyfer data clun, pen-glin, ffêr, penelin ac ysgwydd (lle mae data digonol ar gael):

- Cyfanswm nifer yr ysbytai a chanolfannau triniaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n gallu cymryd rhan yn yr NJR a'r gyfran sy'n wirioneddol gymryd rhan
- Nifer yr ysbytai sy'n cymryd rhan a nifer a math y gweithredoedd a berfformir
- Nifer y gweithredoedd a gynhaliwyd fel cyfran o'r holl weithredoedd a gyflwynir yn flynyddol
- Manylion y weithred, yn ôl math darparwr
- Manylion y weithred gychwynnol, yn ôl math darparwr
- Math yr amnewidiadau cychwynnol a gynhelir
- Nodweddion cleifion ar gyfer gweithredoedd amnewidiad cychwynnol, yn ôl math gweithred

- Oedran a rhyw ar gyfer cleifion amnewidiad cychwynnol
- Dosbarthiad statws corfforol claf (graddau ASA) ar gyfer gweithredoedd amnewidiad cychwynnol
- Indecs Más Corff (BMI) cleifion amnewidiad cychwynnol
- Dangosyddion ar gyfer gweithred gychwynnol yn seiliedig ar grŵp oed
- Oed cleifion sy'n cael amnewidiad cymal cychwynnol
- Techneg llawfeddygol ar gyfer cleifion amnewidiad cychwynnol
- Trefn thromboproffylaxis ar gyfer cleifion amnewidiad cychwynnol a ragnodwyd adeg y llawdriniaeth
- Digwyddiadau mewnllawdriniaethol anffodus a adroddir ar gyfer cleifion amnewidiad cychwynnol, yn ôl math gweithred
- Nodweddion cleifion ar gyfer gweithredoedd diwygio, yn ôl math gweithred
- Dangosydd ar gyfer llawdriniaeth ar gyfer gweithredoedd diwygio
- Tueddiadau yn y defnydd a wneir o frandiau a ddefnyddir mwyaf cyffredin

Ar gyfer cluniau'n benodol

- Cydrannau a dynnwyd yn ystod gweithredoedd diwygio clun
- Cydrannau a ddefnyddiwyd yn ystod gweithredoedd clun un cam
- Tueddiadau mewn maint pen ffemwrol a chysylltiad clun

Ar gyfer pengliniau'n benodol

- Cyfyngiad impiad ar gyfer gweithredoedd cychwynnol
- Math beryn ar gyfer gweithredoedd cychwynnol

2.2 Canfod eich ffordd o gwmpas cyfleuster ar lein yr NJR Reports

Beth allwch chi gael hyd iddo ar lein yn NJR Reports?

Ar 31 Mawrth 2018, mae cyfanswm nifer y gweithredoedd a gofnodwyd yn yr NJR bellach oddeutu 2.52 miliwn.

Mae'r NJR wedi adnewyddu ei gwefan ar lein bwrpasol o adroddiadau blynyddol - NJR Reports - er mwyn dangos data adroddiadau blynyddol a chynorthwyo defnyddwyr i ganfod eu ffordd yn hawdd o gwmpas y doreth o wybodaeth a gesglir ar weithredoedd newid clun.

Cyflwyno rhan Dau o 15fed Adroddiad Blynyddol yr NJR ddata ar weithgarwch clinigol yn ystod blwyddyn galendr 2017. Yr oll sydd yn rhaid ei wneud yw pwysu'r tabiau ar y chwith yn NJR Reports er mwyn gweld gwybodaeth am niferoedd a thechnegau llawfeddygol mewn perthynas â gweithredoedd a gyflwynir i'r NJR.

Tabiau ar y chwith:

Yma caiff y wybodaeth ei didoli'n ôl math adroddiad a gwybodaeth. Mae toreth o ddiweddiadau ar gael, o Adroddiadau Gweithredol yn cynnwys gan Gadeirydd Pwyllgor Llywio'r NJR, i Grynodedbau Gweithredol ar ddata gweithgarwch a chlinigol ac uchafbwyntiau o'r flwyddyn.

Ewch i wefan NJR Reports:
www.njrreports.org.uk



Tabiau ar ben y

dudalen: Os oes angen gwybodaeth amoch am weithredoedd penodol, ewch yn syth i'r data trwy glicio ar fath y cymal sydd fwyaf perthnasol i chi.

Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn benodol am impiadau ac ysbytai, **geirfa** ac **arweinyddiaethau i gleifion** y mae modd eu lawrlwytho fel bod ein holl gleifion yn medru cael at y wybodaeth yn rhwydd.

Yn rhan tri y 15fed Adroddiad Blynyddol rhoddir gwybodaeth am ddata canlyniadau yng nghyswllt amnewidiadau clun, pen-glin, ysgwydd, penelin a ffêr. Mae'n disgrifio gweithgarwch rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Rhagfyr 2017.

Roedd 2,526,601 o weithredoedd wedi'u cofnodi yn yr NJR ar draws pob math cymal. Wedi tynnu gweithredoedd heb adnabyddwyr cyswllt (217,484) a'r rhai â chamgymeriadau data oedd yn rhwystro cyswllt (167), roedd 2,308,950 yn parhau. Mae'r rhan fwyaf o'r eithriadau hyn yn ymwneud â blynyddoedd cyntaf y gofrestrfa, pan nad oedd digon o fanylion am gleifion i alluogi cyswllt.

Roedd niiferoedd y gweithredoedd oedd ar gael i'w dadansoddi fel a ganlyn: 992,090 o amnewidiadau clun gyfan cychwynnol, 1,087,611 o amnewidiadau pen-glin, 4,687 o amnewidiadau ffêr, 30,720 o amnewidiadau ysgwydd a 2,872 o amnewidiadau penelin.

Gweithredoedd newid clun

Mae cyfanswm nifer yr amnewidiadau clun a gofnodwyd yn yr NJR yn parhau i gynyddu gyda mymryn dan filiwn o amnewidiadau wedi'u cynnal ers casglu data am y tro cyntaf yn 2003. Mae mwy o ferched (60%) wedi cael llawfeddygaeth na dynion (40%). 68.0 oedd yr oed canolrifol adeg yr impiad ond mae'n amrywio'n ôl dull gosod gyda cyfan di-sment y dull gosod mwyaf cyffredin a gofnodwyd, gydag oed canolrifol o 64.6, hybrid 69.0 a'r amnewidiadau cyfan â sment yn 72.8.

Yn ystod 2017, cofnodwyd 91,698 o amnewidiadau clun i'r NJR, sef sef mymryn o ostyngiad ar y nifer a berfformwyd yn 2016. Gallai hyn olygu oedi yng ngwaith rhai unedau wrth gofnodi data am y cyfnod, ffenomenon sydd hefyd wedi'i weld yn y blynyddoedd blaenorol.

Parhau fel yr amnewidiad clun mwyaf cyffredin y mae'r cyfan di-sment ond, yn 2017, am y tro cyntaf, roedd cyfanswm nifer yr amnewidiadau clun hybrid a impiwyd yn fwy na'r amnewidiadau clun â sment.

Parhau i ostwng mae nifer yr amnewidiadau ailwynebu clun metel-ar-fetel, gan gyfrannu 0.6% yn unig at gyfanswm nifer yr amnewidiadau clun a berfformiwyd yn 2017. Berynnau metel-ar-bolyethylen oedd y dull a ddefnyddiwyd fwyaf ond parhau mae'r duedd am nifer gynyddol o impiadau seramig-ar-bolyethylen.

O fewn y set ddata gyfan ar amnewidiad clun cychwynnol sydd ar gael i'w dadansoddi, sef 992,090, parhau y dangosyddion mwyaf cyffredin ar gyfer diwygio y mae llacio aseptig, datgymaliad [anseydlogrwydd], adwaith anffafriol i ddarnau gronynnol, poen, haint a thoriad periprosthetig. Mae'r data sydd bellach ar gael yn yr NJR yn fodd i amcangyfrif cyfraddau diwygio cronol ar 14 mlynedd. 7.27% yw'r gyfradd ddiwygio ar 14 mlynedd ar gyfer y grŵp cyfan. Yn ystod yr un cyfnod, 4.88% yw'r gyfradd ddiwygio ar gyfer yr holl osodiadau sment, 8.94% ar gyfer y rhai di-sment a 5.38% ar gyfer hybrid. Mae cynnwys cleifion gyda berynnau metel-ar-fetel, sydd â chyfradd ddiwygio llawer uwch ar gyfer yr holl categorïau gosod (19.06%–22.21%) yn dylanwadu ar y canfyddiadau hyn. Fodd bynnag, mae'n drawiadol y gall gwahanol gyfuniadau o wyneb beryn a gosod bery cyfraddau methiant isel ar 14 mlynedd, gyda chyfraddau methiant beryn serameg-ar-bolyethylen yn 3.77% yn ôl adroddiadau a serameg-ar-serameg yn 3.52% (gyda data cyfyngedig). Metel-ar-bolyethylen, sy'n cofnodi cyfradd methiant calonogol o isel o 4.87% ar 14 mlynedd yw'r gosodiad mwyaf cyffredin a gofnodwyd yn yr NJR.

Mae gan osodiadau ailwynebu metel-ar-fetel gyfradd ddiwygio o 14.76% ar 14 mlynedd a, bellach, cyfyngiedig iawn yw eu defnydd, fel gyda'r holl ferynnau metel-ar-fetel.

Mae rhyw gymaint o'r data pwysicaf a gyflwynir yn adroddiad eleni ar gluniau yn ymwneud ag oed claf adeg yr impiad a'i berthynas â chanlyniad gwahanol gyfuniadau o fath beryn a gosodiad.

Cadarnha dadansoddiad eleni bod cyfraddau diwygio'n cynyddu ar draws y grŵp cyfan wrth i oedran impiad ostwng, gyda'r effaith yn amlycach mewn merched.

Mewn dynion dan 55 oed, mae gan amnewidiadau clun serameg- ar-bolyethylen hybrid a serameg-ar-serameg gyfraddau diwygio o dan 4% ar 12 mlynedd, llai na hanner y 9.98% a welwyd gyda gosodiadau metel-ar-bolyethylen â sment er, eto, awgryma ddata cyfyngedig y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiad hwn. Mewn merched dan 55 oed, gosodiadau serameg-ar-serameg hybrid sydd â'r gyfradd ddiwygio isaf o 4.11% ar 12 mlynedd ac mae serameg-ar-bolyethylen â sment yn rhoi canlyniadau da gyda chyfraddau methiant o oddeutu 4.93% ar yr un pwynt amser. Fodd bynnag, mae newid math y beryn ym mhob gosodiad â sment i fetel-ar-bolyethylen yn cynyddu'r gyfradd methiant i 8.16 mewn merched. Mae'r data hyn yn ganlyniadau pwysig a gallant gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau pan fyddir yn dethol gosodiadau i'r cleifion ieuangach. Mae'n bwysig sylweddoli posibilrwydd bias dethol gyda gosodiadau sydd eisoes yn bodoli a allai ddrysu'r berthynas hon.

Mae'r sefyllfa'n llai cymhleth i gleifion dros 75 oed gan fod gan pob cyfuniad, ac eithrio berynnau metel-ar-fetel, ganlyniadau dibynadwy tebyg. Gwelir y cyfraddau methiant isaf gyda gosodiadau serameg-ar-bolyethylen â sment neu hybrid.

Yn ogystal, mae cyfuno diwygio a marwolaeth wedi nodi y bydd yr amnewidiad yn y rhan fwyaf o gleifion dros 75 oed sy'n cael newid clun, yn para am weddill eu hoes.

Ceir darlun cymysg wrth ddadansoddi maint pen (diameter beryn) o ran perfformiad. Tueddu i berfformio'n wael y mae meintiau mwyaf pennau ym mhob dosbarth o fetel-ar-bolyethylen â sment, metel-ar-bolyethylen di-sment a serameg-ar-bolyethylen â sment. Fodd bynnag, mae effaith absoliwt maint pen yn llai cyson e.e. pen metel-ar-bolyethylen 36mm â sment yw'r gwaethaf lle mae modd cymharu perfformiad pen metel-ar-bolyethylen 36mm di-sment â'r maint beryn 28mm a ddefnyddir fwyaf. Fel arall, mae beryn serameg-ar-serameg 28mm yn tueddu i berfformio'n waeth na berynnau mwy, felly, rhaid bod yn ofalus wrth ddewis maint beryn.

Parhau i gynyddu mae nifer yr amnewidiadau clun a gofnodir yn yr NJR ac a berfformir mewn cleifion y mae gwddf y forddwyd wedi torri iddynt, gyda 4,445 wedi'u cofnodi yn 2017. Mae cyfradd ddiwygio flynyddol y grŵp hwn yn parhau'n debyg i'r rhai hynny a berfformir ar gyfer osteoarthritis wedi'r tri mis cyntaf yn dilyn llawfeddygaeth, gyda chynnydd bychan yn unig mewn risg absoliwt a ddaw o risg uwch o fethiant yn y tri mis cyntaf wedi llawfeddygaeth, er gwaethaf cyfraddau marwolaeth uwch.

I astudio ailddiwygiadau amnewidiadau clun, roedd 92,348 cofnod o ddiwygiadau cyntaf ar gael i'w dadansoddi gan arwain at 8,528 o ailddiwygiadau wedi hynny. Roedd perthynas gref rhwng y risg diwygio ac amseriad y llawfeddygaeth gyntaf ac mae 11.66% o gluniau a gaiff eu diwygio o fewn blwyddyn i'r weithred gychwynnol yn cael eu hailddiwygio o fewn tair blynedd.

Gweithredoedd newid pen-glin

Yn y gofrestrfa gyfan cofnodwyd 1,087,611 o amnewidiadau pen-glin cychwynnol y gellid eu profi rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Rhagfyr 2017, gyda dilyniant ar 14.75 mlynedd fan bellaf. Ar draws y gofrestrfa gyfan, ar gyfer osteoarthritis y perfformwyd y mwyafrif llethol o weithredoedd (97%), gyda mwy o ferched na dynion yn cael llawdfeddygaeth gydag oed canolrifol o 68.9 (SD 9.6) adeg yr impiad.

Yn 2017, cofnodwyd 102,177 o weithredoedd pen-glin cychwynnol yn yr NJR, gostyngiad ffiniol ar y nifer a berfformiwyd yn 2016. Efallai bod rhai unedau wedi oedi cyn cofnodi data, ffenomenon a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol hefyd. Yn y grŵp hwn, roedd 89% yn amnewidiadau pen-glin cyfan, 10% yn weithredoedd uncambylol ac 1% yn badell-ffemwrol.

Er 2003, mae TKR â sment wedi parhau i fod y gosodiad a ddefnyddir fwyaf yn y Deyrnas Unedig ar gyfer amnewidiad pen-glin, sef 85% o'r holl brosthesisau cychwynnol a gofnodwyd yn y gofrestrfa.

Dros amser mae cyfanswm nifer yr impiadau pen-glin cyfan di-sment neu hybrid wedi gostwng, gan gyrraedd lefel gyfredol o 2.2% o'r holl amnewidiadau pen-glin cychwynnol.

Yn 2017, o'r holl amnewidiadau pen-glin, roedd 63% ohonynt yn brosthesisau digyfngiad â sment a 23% wedi'u sefydlogi o'r tu ôl â sment, gyda phrothesisau beryn symudol yn llai cyffredin eu defnydd.

Gyda dilyniant fan bellaf o bymtheng mlynedd, bellach mae'r gofrestrfa'n rhoi cipolwg ar oroesi impiad pen-glin i mewn i'r ail ddegawd. 4.47% yw amcangyfrif cyfradd ddiwygio ar 14 mlynedd o'r cyfan o'r TKRs â sment. Roedd y gyfradd ddiwygio ar gyfer dyfeisiau beryn sefydlog digyfngiad (4.07%) fymryn yn is na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer cydrannau a sefydlogwyd o'r tu ôl (5.39%). Gwelir y cyfraddau diwygio isaf ar gyfer TKR â sment pan ddefnyddir cydrannau crimogol unbloc er, eto, awgryma data cyfyngedig y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiad hwn.

Dros y bum mlynedd ddiwethaf, cafwyd cynnydd yn nifer y prothesisau uncambylol tibioffemwrol a gofnodwyd yn y gofrestrfa, gan gyrraedd 10% am y tro cyntaf yn 2017. Dros y tair blynedd diwethaf, mae 809 o lawfeddygon mewn 358 o unedau bellach yn perfformio'r llawdriniaeth hon. Fodd bynnag, pery cyfraddau diwygio ar gyfer amnewidiad pen-glin uncydrannol yn uwch wrth eu cymharu â TKR, gan gyrraedd 16.9% ar 14 mlynedd.

Defnyddir prothesisau padell-ffemwrol mewn 1% o'r holl amnewidiadau pen-glin cychwynnol a gofnodwyd yn 2017. Y math amnewidiad pen-glin hwn sy'n cofnodi'r gyfradd ddiwygio uchaf ar 14 mlynedd, dros 24.4%, a allai olygu'r duedd am lai o ddefnydd ohono dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae oed yn parhau i gael effaith sylweddol ar ganlyniad ar ôl amnewidiad pen-glin cychwynnol, lle mae cleifion ieuangach yn profi cyfradd ddiwygio uwch. Mae'r sylw pwysig hwn i'w weld amlycaf mewn cleifion dan 55 oed ac yn y rhai hynny sy'n cael amnewidiad pen-glin uncydrannol.

Fodd bynnag, mae'n tawelu meddwl rhywun i nodi fod diwygio'n gymharol anghyffredin ac i gleifion o amgylch yr oed cyfartalog i gael llawfeddygaeth, mae eu hamnewidiad pen-glin yn debygol o bara gweddill eu hoes heb fod angen ei ddiwygio.

Dros y pedair mlynedd diwethaf, mae cyfanswm nifer y llawdriniaethau diwygio newydd a gofnodwyd yn y gofrestrfa wedi aros yn eithaf statig, gyda 6,289 wedi'u cofnodi yn y gofrestrfa ar gyfer 2017. Gweithredoedd un cam oedd dros 80% o'r achosion hyn, gyda llacio aseptig, dangosydd arall, ansefydlogrwydd a phoen yn cael eu cofnodi fel y dangosyddion mwyaf cyffredin ar gyfer llawfeddygaeth.

Mae casglu data dros gyfnod o 14 mlynedd yn fodd i gofnodi canlyniadau ailddiwygio. Dengys dadansoddiad yr NJR yn 2017 fod risg ailddiwygio yn dilyn diwygiad cyntaf yn uwch na risg diwygio ar ôl gweithred gychwynnol. Yn ogystal, mae'r gyfradd ailddiwygio ar ôl amnewidiad pen-glin uncydrannol yn eithaf tebyg i ailddiwygio ar ôl amnewidiad pen-glin cyfan.

Gweithredoedd newid ffêr

Mae cyfanswm o 4,687 o amnewidiadau ffêr cychwynnol wedi'u cofnodi ar yr NJR rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Rhagfyr 2017.

Ym mhob blwyddyn o gasglu data cafwyd cynnydd yn nifer y gweithredoedd cychwynnol a berfformiwyd a pharhaodd y duedd hon gyda 734 yn cael eu cofnodi yn 2017. Fe'u perfformiwyd gan 135 o ymgynghorwyr yn gweithio mewn 139 o unedau gyda rhif canolrifol o dair wedi'u perfformio fesul llawfeddyg (IQR 1-8) ac fesul uned (IQR 1-6). Yn ystod yr wyth mlynedd y mae data wedi'u casglu, mae cyfanswm o 69% o lawfeddygon ymgynghorol a 74% o unedau wedi cyflwyno cyfanswm o lai nag ugain gweithred.

Parhau yn 68 (IQR 61-74) oed y mae'r oed canolrifol adeg llawfeddygaeth gychwynnol a chynhaliwyd 59% o weithredoedd mewn dynion.

Mae gosodiad di-sment wedi'i ddefnyddio yn y rhan fwyaf o impiadau a gofnodwyd (98.2%). Yn gyflym mae Infinity wedi dod y prosthesis mwyaf cyffredin ei ddefnydd mewn amnewidiad ffêr ers ei gyflwyno yn 2014



8.70% yw'r gyfradd ddiwygio gronnol saith mlynedd ar gyfer y grŵp cyfan. Fodd bynnag, mewn cleifion ieuangach dan 65 oed, mae'r gyfradd ddiwygio yn fwy na 10% er, eto, awgryma data cyfyngedig y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiad hwn.

Gweithredoedd newid ysgwydd

Mae amnewidiadau ysgwydd cychwynnol wedi'u cofnodi yn yr NJR o 1 Ebrill 2012 a hyd at 31 Rhagfyr 2017 roedd cyfanswm o 30,720 ar gael i'w dadansoddi.

Er 2012 mae cyfanswm nifer y gweithredoedd cychwynnol a berfformir bob blwyddyn wedi cynyddu a gwelwyd yr un duedd yn 2017 gyda 6,526 o impiadau wedi'u cofnodi yn yr NJR.

Perfformiodd 354 o unedau amnewidiadau ysgwydd yn 2017, mymryn o gynnydd ar 2016, gyda 14 (IQR 5-26) fel nifer ganolrifol y gweithredoedd fesul uned. Dros y tair blynedd diwethaf, mae nifer yr ymgynghorwyr a gynhaliodd y weithred hon wedi aros ar ychydig dros 480, gyda nifer ganolrifol o 10 (IQR 4-19) fesul ymgynghorydd yn 2017.

Yn y grŵp cyfan, mae gweithredoedd dewisol yn cyfrif am 27,990 o achosion, gydag osteoarthritis (17,297) a chymalwst toriad llawes(7,822) y dangosyddion mwyaf cyffredin ar gyfer llawfeddygaeth.

73 (IQR 67-79) oedd oed canolrifol cleifion oedd yn cael amnewidiad ysgwydd dewisol, gyda 70% o'r holl achosion yn cael eu perfformio mewn merched. Perfformwyd amnewidiad ysgwydd cychwynnol ar gyfer trawma mewn 2,730 o achosion, gydag oed canolrifol o 74 (IQR 67-80) ac, unwaith eto, yn bennaf mewn merched (77%).

O edrych ar y grŵp cyfan, cymalffurfiad ysgwydd gyfan pegynedd o chwith yw'r prosthesis a ddefnyddiwyd fwyaf cyffredin ar gyfer dangosyddion dewisol, ac yna gymalffurfiad ysgwydd gyfan a hanner cymalffurfiad ysgwyddol. Cymalffurfiad ysgwydd gyfan pegynedd o chwith yw'r impiad a gofnodwyd amlaf hefyd ar gyfer

eu defnyddio mewn trawma, gyda hanner cymalffurfiad ysgwyddol hefyd yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin.

Yn y grŵp cyfan, cafwyd 794 o ddiwygiadau o weithredoedd dewisol a 66 o o weithredoedd trawma.

Ansefydlogrwydd ac annigonolrwydd llawes a throi hanner cymalffurfiad yn gymalffurfiad ysgwydd gyfan yw'r dangosyddion a gofnodir amlaf ar gyfer diwygio mewn llawfeddygaeth ddewisol a thrawma.

5.0% yw'r gyfradd ddiwygio gronnol ar bum mlynedd ar gyfer yr holl weithredoedd dewisol a 3.7% ar gyfer achosion trawma aciwt. Mewn llawfeddygaeth ddewisol, mae gan gymalffurfiad ysgwydd gyfan a chymalffurfiad ysgwydd gyfan pegynedd o chwith gyfraddau diwygio pum mlynedd o 3.3% a 3.5% yn y ddau achos, o gymharu â 7.4% a welir gyda hanner cymalffurfiad ysgwyddol.

O ddadansoddi rhagor ar Sgorau Ysgwydd Rhydychen a gasglwyd cyn y llawfeddygaeth (Q1) a chwe mis wedi'r llawfeddygaeth(Q2), canolbwyntiwyd ar y 275 (8%) o gleifion a nodwyd yn 13eg Adroddiad Blynyddol yr NJR (2016) fel y rhai oedd â'r sgorau gwaethaf ar ôl llawfeddygaeth. Gwelir y canlyniad gwael hwn ar draws yr holl fathau impiad ac erbyn diwedd 2017 roedd cyfanswm o 33 (12%) wedi'u diwygio.

Gweithredoedd newid penelin

Mae data ar weithredoedd penelin cychwynnol wedi'u casglu er 2012 ac erbyn 31 Rhagfyr 2017 roedd cyfanswm o 2,872 o weithredoedd wedi'u cofnodi yn yr NJR. Amnewidiadau prosthetig cyfan (77.6%), amnewidiad pen radial ynysedig (17.0%) neu hanner cymalffurfiad ysgwyddol(3.2%) yw'r rhan fwyaf o achosion a gofnodwyd.

O'r 2,872 o amnewidiadau penelin yn yr NJR, mae 1,938 wedi'u defnyddio ar gyfer gofal dewisol. Yn y grŵp hwn, mae amnewidiad prosthetig cyfan wedi'i ddefnyddio mewn 1,772 (91.4%) o achosion, yn trin yn bennaf arthritis llidiol (50.6%), osteoarthritis (34.2%) neu ôl-effeithiau trawma (14.6%). Mewn 934 o

achosion, mae amnewidiad penelin wedi'i ddefnyddio i drin trawma aciwt, gydag amnewidiad prosthetig cyfan(48.9%), amnewidiad pen radial (40.9%) neu hanner cymalfurfiad ysgwyddol (8.6%) y tri math gweithred a ddefnyddiwyd fwyaf cyffredin.

Yn 2017 cofnodwyd 612 o weithredoedd cychwynnol, cynnydd o oddeutu 10% ar y nifer yn 2016. Erys amnewidiad prosthetig cyfan (70.3%), amnewidiad pen radial ynysedig(24.8%) a hanner cymalfurfiad ysgwyddol(4.1%) y mathau gweithredoedd a ddefnyddir fwyaf cyffredin.

Perfformwyd y gweithredoedd hyn mewn 161 o unedau gwahanol gan 222 o lawfeddygon ymgynghorol, gyda chanolrif o ddwy (IQR 1-5) weithred fesul uned a chanolrif o ddwy (IQR 1-3) fesul ymgynghorydd.

Ar bedair blynedd, 4.7% yw tebygolrwydd cronol diwygio o'r holl amnewidiadau penelin cychwynnol, gyda 1.7% yn cael ei gofnodi ar gyfer achosion trawma a 5.78% ar gyfer yr holl achosion dewisol cyfun. Haint a llacio aseptig oedd y prif ddangosyddion ar gyfer diwygio.



Rhan 4

Gweithgarwch
a chanlyniadau
impiadau ac ar
lefel unedau

Yn Rhan Pedwar yr adroddiad blynyddol rhoddir dangosyddion ansawdd cofnodi data a pherfformiad ar gyfer Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol (nifer ohonynt yn cynnwys mwy nag un ysbyty) a darparwyr (preifat) annibynnol yn Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw ar gyfer blwyddyn galendr 2017. Darperir dadansoddiad o ganlyniadau hefyd wedi llawfeddygaeth newid clun a phen-glin ar gyfer y cyfnod 2003 i 2017.

Mae'r adran hon hefyd bellach yn darparu data ar gyfer impiadau ffiniol er 2003 a rhagor o wybodaeth am rybuddion a'r dyddiad defnyddio olaf.

Mae modd gweld y dadansoddiad llawn ar gyfer unedau yn y ddogfen Rhan Pedwar sydd ar lein yn yr adeg lawrlwythiadau yn www.njrreports.org.uk.

4.1 Perfformiad Impiad

Mae'r Pwyllgor Craffu Impiadau'n adrodd ar impiadau ffiniol Lefel 1 i'r MHRA. Ers ffurfio'r pwyllgor yn 2009 adroddwyd ar bedwar bôn clun, saith cydran asetabwlaidd (cwpan) clun a thri ar hugain o gyfuniadau bôn/cwpan clun. Rhoddwyd gwybod am naw brand pen-glin.

Ystyrir bod Impiad yn ffiniol Lefel 1 pan fo'i Gyfradd Digwyddiadau Amser Prosthesis (PTIR) yn fwy na dwywaith PTIR y grŵp, felly'n caniatáu ar gyfer cyfyngau hyder. Dangosir y rhain fel nifer y diwygiadau fesul 100 blwyddyn claf. Er Mawrth 2015, rydym wedi dechrau nodi'r impiadau sy'n perfformio orau, byddai gan y rhain PTIR sy'n llai na hanner PTIR eu grŵp, felly'n caniatáu ar gyfer cyfyngau hyder. Hyd heddiw nid oes yr un impiad wedi cyrraedd y lefel honno.

Perfformiad Impiad Clun

Tabl 1 Cydrannau bonion/ffemwrol ffiniol Lefel 1 a adroddir i MHRA.

Enw cydran y bonyn/ffemwrol	Niferoedd a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd ddiwethaf
ASR	2,924	2.89	2010	Gorffennaf 2010
Corin Proxima	105	2.15	2011	Medi 2009
Bonyn di-sment S-ROM	3,256	1.45	2013	Chwefror 2018
Bonyn di-sment Adept	227	1.88	2017	Tachwedd 2010

Tabl 2 Cydrannau asetabwlaidd Lefel 1 a adroddir i MHRA.

Enw'r gwpan	Niferoedd a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd ddiwethaf
ASR	6,255	4.06	2010	Gorffennaf 2010
Cwpan Ultima MoM	193	1.87	2010	Rhagfyr 2006
M2A38	1,484	1.79	2014	Mehefin 2011
Delta One TT	344	1.95	2015	Chwefror 2018
ADES â sment	541	1.32	2018	Chwefror 2018
Cragen Ddiwygio Fetel Drabecwlaidd	320	1.65	2017	Chwefror 2018
Pinacl â leinin metel	15,558	1.38	2018	Mai 2013



Tabl 3 Cyfuniadau bonyn/cwpan ffiniol Lefel 1

Cyfuniad	Niferoedd a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd ddiwethaf
Pen Ailwynebu ASR /Cwpan Ailwynebu ASR	2,914	2.89	2010	Gorffennaf 2010
Bonyn Metafix / Cwpan Ailwynebu Cormet 2000	173	2.76	2010	Chwefror 2011
Cwpan Ailwynebu CPT/Adept	268	3.46	2011	Mai 2010
Cwpan Ailwynebu Corail/ASR	2,729	5.44	2011	Mehefin 2010
Cwpan Ailwynebu CPT/BHR	116	2.5	2011	Medi 2010
Cwpan Accolade/Mitch TRH	274	2.64	2011	Ionawr 2011
Bonyn di-sment Summit / Cwpan Ailwynebu ASR	128	4.79	2012	Awst 2009
Cwpan Ailwynebu CPT/Durom	184	2.48	2012	Medi 2009
Bonyn di-sment S-Rom / Cwpan Ailwynebu ASR	147	4.25	2012	Chwefror 2010
Cwpan Ailwynebu CPCS/BHR	255	1.47	2012	Mai 2010
Cwpan Ailwynebu Anthology/BHR	510	3.1	2012	Awst 2011
Bonyn di-sment SL-Plus / Cwpan Ailwynebu Cormet 2000	627	2.19	2013	Ebrill 2010
Profemur L Modular/ Cwpan Ailwynebu Conserve Plus	159	2.68	2013	Mehefin 2010
Bonyn di-sment Deufetrig /M2A 38	1,302	1.82	2014	Mehefin 2011
Cwpan Ailwynebu Corin Proxima/Cormet 2000	102	2.23	2015	Medi 2009
Ffon CPT/Novae	400	1.31	2015	Chwefror 2018
Bonyn di-sment Synergy / Cwpan Ailwynebu BHR	1,584	1.88	2016	Mai 2011
Bonyn di-sment Adept / Cwpan Ailwynebu Adept	200	2.02	2017	Tachwedd 2010
Bonyn di-sment Taperloc /Apollo	147	2.65	2017	Chwefror 2018
Exeter V40/ Cragen Ddiwygio Fetel Drabecwlaidd	172	1.88	2017	Rhagfyr 2017
Bonyn di-sment CLS / Cwpan Ailwynebu Adept	218	2.4	2017	Mawrth 2011
CPT/ADES â sment	397	1.41	2018	Chwefror 2018
Spectron/Opera	216	1.04	2018	Chwefror 2014
Spectron/Opera	216	1.04	2018	Chwefror 2014

Impiadau clun sy'n perfformio orau

Nid oes impiadau na chyfuniadau clun sy'n perfformio'n ystadegol lai na hanner eu PTIR disgwylidig.

Perfformiad impiad pen-glin

Tabl 4 Impiadau ffiniol lefel 1 a adroddir i MHRA.

Brand Penglin	Niferoedd a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd ddiwethaf
Penglin Deucambylol JRI	247	1.79	2009	Tachwedd 2008
Tack	231	1.65	2009	Awst 2008
St Leger	104	1.53	2011	Awst 2005
Journey Deuce	151	2.81	2014	Mehefin 2013
SLK Evo	103	1.87	2016	Ebrill 2013
Colfach Cylchdroadol Endo	148	2.86	2016	Chwefror 2018
ACS	198	1.82	2017	Mawrth 2017
Journey Oxinium	825	1.10	2017	Ionawr 2014
Noiles	390	1.22	2018	Chwefror 2018

Impiadau pen-glin sy'n perfformio orau

Nid oes impiadau pen-glin sy'n perfformio'n ystadegol lai na hanner eu PTIR disgwylledig.

4.2 Gweithgarwch clinigol

At ei gilydd yn 2017, roedd 148 o Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol (sy'n cynnwys 248 o ysbytai ar wahân) a 179 o ysbytai annibynnol yn agored ac yn gymwys i roi gwybod i'r NJR am weithredoedd cleifion. Cyflwynodd yr holl unedau ac eithrio tair uned drawma ddata yn 2017. Gan Ymddiriedolaeth GIG a Byrddau Iechyd Lleol yn unig y mae'r ganran o'r holl amnewidiadau cymal clun a phen-glin a gofnodwyd yn yr NJR yn erbyn y rhai hynny a gynhaliwyd (cydymffurfiaid) ar gael. Nid oes gan ddarparwyr preifat ddata ar hwn ar gael ar hyn o bryd a byddai ffigyrau hefyd yn eithrio unedau yng Ngogledd Iwerddon gan nad oes data cydymffurfiaid ar gael.

- Adroddodd 59% o ddarparwyr GIG ar 95% neu fwy o'r amnewidiadau cymal a gynhaliwyd ganddynt
- Adroddodd 30% o ddarparwyr GIG ar rhwng 80% a 95%
- Adroddodd 10% o ddarparwyr GIG lai na 80%

O'r ysbytai hynny sy'n cyflwyno data, roedd cyfran y cleifion a roes eu cydsyniad i gofnodi eu manylion yn yr NJR fel a ganlyn:

Ysbytai GIG

- Cyflawnodd 46% o ysbytai GIG gyfradd gydsynio o fwy na 95%
- Cyflawnodd 34% gyfradd gydsynio o 80% i 95%
- Cofnododd 20% gyfradd gydsynio o lai na 80%

Ysbytai annibynnol

- Cyflawnodd 69% o ysbytai annibynnol gyfradd gydsynio o fwy na 95%
- Cyflawnodd 24% gyfradd gydsynio o 80% i 95%
- Cofnododd 7% gyfradd gydsynio o lai na 80%

Yn yr un modd, rhestrir isod gyfran y cofnodion lle mae data ar gael i cleifion allu gael eu cysylltu â rhif GIG (cysylltedd):

Ysbytai GIG

- Cyflawnodd 88% gyfran o gleifion â rhif GIG cysylltiadwy o fwy na 95%
- Cyflawnodd 10% gyfran o 80% i 95%
- Cofnododd 2% gyfran o gofnodiadau cysylltiadwy o lai na 80%

Ysbytai annibynnol

- Cyflawnodd 81% gyfran o gleifion â rhif GIG cysylltiadwy o fwy na 95%
- Cyflawnodd 14% gyfran o 80% i 95%
- Cofnododd 5% gyfran o gofnodiadau cysylltiadwy o lai na 80%

Noder: Efallai bod disgwyl i ysbytai annibynnol fod â chyfraddau cysylltedd is nag ysbytai GIG gan y gallai cyfran o'u cleifion ddod o dramor a bod heb rif GIG. Nid oes ffigyrau cysylltedd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

4.3 Unedau ffiniol ar gyfer cyfraddau marwolaeth a diwygio 90 diwrnod ar gyfer y cyfnod 2003 i 2017

Cymharwyd niferoedd y diwygiadau amnewidiadau clun a phen-glin a arsylwyd ar gyfer pob ysbyty â'r niferoedd a ddisgwyliwyd o gofio mathau achosion yr uned o ran oed, rhyw a rheswm am amnewidiad cychwynnol. Mae ysbytai â chyfradd ddiwygio llawer uwch na'r disgwyl ar gyfer newid clun a phen-glin wedi'u nodi. Roedd gan yr ysbytai hyn gyfradd ddiwygio oedd uwchben y cyfyngiadau rheoli uchaf o 99.8% (mae'r cyfyngiadau hyn oddeutu +/-tri gwyriad safonol). Byddem yn disgwyl i 0.2% (un mewn 500) fod y tu allan i'r cyfyngiadau rheoli trwy siawns gydag oddeutu hanner o'r rhain (un mewn 1,000) uwchben y cyfyngiad uchaf.

Wrth edrych dros oes y gofrestrfa, adroddodd cyfanswm o 29 o ysbytai gyfraddau diwygio uwch na'r disgwyl ar gyfer amnewidiad pen-glin ac roedd gan 45 o ysbytai gyfraddau diwygio uwch na'r disgwyl ar gyfer llawfeddygaeth ar y glun. Fodd bynnag, dangosodd diwygiadau a gymerwyd o bum mlynedd olaf y gofrestrfa'n unig mai deg ysbyty'n unig adroddodd ar gyfraddau uwch na'r disgwyl ar gyfer pengliniau a saith ar gyfer cluniau.

Cyfrifwyd marwolaeth 90 diwrnod ar gyfer amnewidiad clun a phen-glin gan ddefnyddio data'r pum mlynedd diwethaf ar gyfer yr holl ysbytai trwy blotio cymarebau marwolaeth safonedig ar gyfer pob ysbyty yn erbyn nifer disgwyliedig y marwolaethau. Nid oedd gan yr un ysbyty gyfradd marwolaeth uwch na'r disgwyl ar gyfer newid clun na phen-glin.

Noder: Mae addasu mathau achosion ar gyfer marwolaeth yn cynnwys oed, rhyw a graddfa ASA. Mae achosion trawma wedi'u heithrio o ddadansoddiadau marwolaeth yng nghyswllt clun a phen-glin ynghyd â chluniau a impiwyd ar gyfer hanner cymalffurfiad a fethodd neu gancr metastatig (yr olaf er mis Tachwedd 2014 yn unig pan ddechreuwyd cofnodi'r rheswm hwn). At hyn, lle cafodd cymalau'r ochr chwith a'r ochr dde eu himpio'r un diwrnod, un ochr yn unig a gynhwyswyd yn y dadansoddiad.

Noder: Mae unrhyw uned a nodir fel uned ffiniol bosib yn Rhan Pedwar wedi'i hysbysu. Rhoddir i'r holl unedau Adroddiad Clinigol Blyneddol ac, yn ogystal, mae ganddynt fynediad at System Adborth Rheoli'r NJR.

Nodyn pwysig am yr ysbytai ffiniol a restrir

Mewn Adroddiadau Blyneddol blaenorol, adroddodd yr NJR ar ysbytai ffiniol yn seiliedig ar yr holl achosion a gyflwynwyd i'r NJR er 1 Ebrill 2003. Er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn arferion ysbytai a'r defnydd o gydrannau, mae'r NJR bellach yn adrodd ar ysbytai ffiniol yn seiliedig ar ddata'r pum mlynedd diwethaf (1 Mawrth 2013 i 1 Mawrth 2018, y dyddiad olaf yw'r dyddiad pan dorrwyd y set ddata). Mae'r toriad pum mlynedd hwn o ddata yn eithrio o'r dadansoddiad y rhan fwyaf o impiadau ffiniol a dynnwyd yn ôl, ac amnewidiadau clun metel-ar-fetel ac, felly, yn cynrychioli'n well arfer cyfoes.

**Ffiniol ar gyfer cyfraddau marwolaeth yng nghyswllt Clun er 2013¹**

Dim wedi'u hadnabod

Ffiniol ar gyfer cyfraddau marwolaeth yng nghyswllt Pen-glin er 2013¹

Dim wedi'u hadnabod

Ffiniol ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2003¹

Ysbyty Ashtead (Surrey)

Ysbyty Basingstoke a Gogledd Hampshire

Ysbyty BMI Gisburne Park (Swydd Gaerhirfryn)

Ysbyty BMI Sarum Road (Hampshire)

Ysbyty BMI The Somerfield (Caint)

Ysbyty Cyffredinol Cheltenham

Ysbyty Clifton Park (Gogledd Swydd Efrog)

Ysbyty'r Conquest

Ysbyty Prifysgol Homerton

Ysbyty KIMS (Caint)

Ysbyty Llandochoau Fach

Ysbyty Cyffredinol Ardal Maidstone

Medway Maritime

Ysbyty Musgrove Park

Ysbyty Nevill Hall

Ysbyty New Hall (Wiltshire)

Ysbyty Cyffredinol Gogledd Tyneside

Ysbyty Cyffredinol Northampton (Aciwt)

Ysbyty Nuffield Health Brighton (East Sussex)

Ysbyty Nuffield Health Cheltenham (Swydd Gaerwrangon)

Ysbyty Nuffield Health Haywards Heath (Gorllewin Sussex)

Ysbyty Nuffield Health Tees (Swydd Ddyrham)

Ysbyty Nuffield Health Wessex (Hampshire)

Ysbyty Nuffield Health York (Gogledd Swydd Efrog)

Ysbyty Pilgrim

Ysbyty'r Tywysog Charles

Ysbyty Cyffredinol Ardal Rotherham

Ffiniol ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2003¹

Ysbyty Brenhinol Cernyw (Treliske)

Ysbyty Ardal Caerllasog

Canolfan Driniaeth Shepton Mallet (Gwlad yr Haf)

Ysbyty Spire Alexandra (Caint)

Ysbyty Spire Caerdydd (Morgannwg)

Ysbyty Spire Dunedin (Berkshire)

Ysbyty Spire Tunbridge Wells (Caint)

Ysbyty Dinas St Albans

Ysbyty St Michael

Canolfan Driniaeth GIG Orthopedig Sussex

Ysbyty Annibynnol Berkshire (Berkshire)

Ysbyty Brenhinol Llundain

Ysbyty Prifysgol (Cofentri)

Ysbyty Prifysgol

Ysbyty Prifysgol Gogledd Tees

Ysbyty Wansbeck Hartlepool

Ysbyty Cyffredinol Watford

Ysbyty Efrog

Noder: 1 Ystod dyddiadau 1 Ebrill 2003 hyd 1 Mawrth 2018. 2 Ystod dyddiadau 1 Mawrth 2013 hyd 1 Mawrth 2018.

Ffiniol ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2013²

Ysbyty Prifysgol Homerton

Ysbyty KIMS (Caint)

Ysbyty Ardal Caersallog

Ysbyty Cyffredinol Southampton

Ysbyty St Richard

Ysbyty Wansbeck

Ysbyty Cyffredinol Weston

Ffiniol ar gyfer cyfraddau diwygio Pen-glin, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2003¹

Ysbyty Brenhinol Bradford

Ysbyty BMI Bishops Wood (Middlesex)

Ysbyty BMI Goring Hall (Gorllewin Sussex)

Ysbyty Annibynnol BMI Llundain (Llundain Fwyaf)

Ysbyty BMI The Meriden (Gorllewin Canolbarth Lloegr)

Ysbyty Broadgreen

Ysbyty Castle Hill

Ysbyty Charing Cross

Ysbyty Conquest

Ysbyty Sirol Louth

Ysbyty Good Hope

Ysbyty Guy

Ysbyty Hinchingsbrooke

Ysbyty Prifysgol Homerton

Canolfan Driniaeth GIG Horton (Swydd Rhydychen)

Ysbyty St Cross

Ysbyty Brenin Edward VII y Chwaer Agnes (Llundain Fwyaf)

Ysbyty Kings Mill

Ysbyty Llandochoau Fawr

Ysbyty New Hall (Wiltshire)

Ysbyty Cyffredinol Southampton

Ysbyty Southmead

Ysbyty Spire Alexandra (Caint)

Ysbyty Spire Clare Park (Surrey)

Ysbyty Spire Southampton (Hampshire)

Ysbyty Dinas St Albans

Ysbyty St Richard

Ysbyty Coleg y Brifysgol

Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg

Ffiniol ar gyfer cyfraddau diwygio Pen-glin, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2013²

Ysbyty Annibynnol BMI Llundain (Llundain Fwyaf)

Ysbyty BMI The Meriden (Canolbarth Lloegr)

Ysbyty Broadgreen

Ysbyty Ealing

Ysbyty Guy

Ysbyty Heatherwood

Ysbyty Brenin Edward VII y Chwaer Agnes (Llundain Fwyaf)

Ysbyty Leighton

Ysbyty Nevill Hall

Ysbyty St Richard

Noder: 1 Ystod dyddiadau 1 Ebrill 2003 hyd 1 Mawrth 2018. 2 Ystod dyddiadau 1 Mawrth 2013 hyd 1 Mawrth 2018.



4.4 Perfformiad gwell na'r disgwyl

Eleni eto rydym wedi rhestru ysbytai lle mae cyfraddau diwygio'n ystadegol well na'r disgwyl. Yn y rhestr isod gwelir unedau sy'n gorwedd dan y cyfyngiad rheoli 99.8% ac a gydymffurfiodd fwy na 90% yn archwiliad ansawdd data 2014/15 yr NJR (ysbytai GIG yn unig).

Gwell na'r disgwyl ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2013¹

Ysbyty Alexandra
Adain Dde Ysbyty Bedford
Ysbyty'r Esgob Auckland
Ysbyty Chapel Allerton
Ysbyty Ardal Harrogate
Ysbyty Sirol Hereford
Ysbyty Ipswich
Canolfan Driniaeth Kidderminster
Ysbyty Manor
Ysbyty New Cross
Ysbyty Cyffredinol y Northern
Ysbyty'r Tywysog Philip
Ysbyty'r Dywysoges Alexandra
Ysbyty'r Frenhines Alexandra
Ysbyty'r Queens Burton Upon Trent
Canolfan Feddygol Queen's Ysbyty Prifysgol Nottingham
Ysbyty'r Royal Derby
Ysbyty Brenhinol Dyfnaint a Chaerwysg (Wonford)
Ysbyty Brenhinol Sirol Surrey
Ysbyty'r Santes Fair
Ysbyty Brenhinol Sunderland
Ysbyty'r Great Western
Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol
Ysbyty Wroughtington

Gwell na'r disgwyl ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2013²

Ysbyty Ipswich
Ysbyty Brenhinol Dyfnaint a Chaerwysg (Wonford)
Ysbyty Brenhinol Sirol Surrey

Gwell na'r disgwyl ar gyfer cyfraddau diwygio Pen-glin, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2003¹

Ysbyty'r Esgob Auckland
Ysbyty Cyffredinol Bronglais
Ysbyty Coffa Darlington
Ysbyty Ipswich
Ysbyty New Cross
Ysbyty'r Dywysoges Alexandra
Ysbyty'r Queen's Burton Upon Trent
Ysbyty Brenhinol Bournemouth
Ysbyty Brenhinol Derby
Ysbyty Russells Hall
Ysbyty Cyffredinol Sandwell
Ysbyty St Woolos
Ysbyty Stepping Hill
Ysbyty Prifysgol Whipps Cross
Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerwrangon
Ysbyty Wroughtington

Gwell na'r disgwyl ar gyfer cyfraddau diwygio Pen-glin, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2012²

Dim wedi'u hadnabod

Noder: 1 Ystod dyddiadau 1 Ebrill 2003 hyd 1 Mawrth 2018. 2 Ystod dyddiadau 1 Mawrth 2013 hyd 1 Mawrth 2018.

Casglu Data

Mae Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau (NJR) yn cynhyrchu'r adroddiad hwn gan ddefnyddio data a gesglir, a grynhoir ac a ddarperir gan drydydd partion. Oherwydd hyn, nid yw'r NJR yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ba mor fanwl gywir, cyfredol, dibynadwy a chywir yw unrhyw ddata a ddefnyddir neu y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, nac am ba mor fanwl gywir, cyfredol, dibynadwy a chywir yw'r cysylltiadau neu gyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill ac mae'n ymwrthod â phob gwarant mewn perthynas â data, cysylltiadau a chyfeiriadau o'r fath, i'r eithaf a ganiateir gan ddeddfwriaeth.

Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar yr NJR (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i rwymedigaeth oherwydd esgeulustod) am unrhyw golled, difrod, cost na thraul sy'n digwydd neu'n codi oherwydd bod unrhyw berson yn defnyddio neu'n dibynnu ar y data o fewn yr adroddiad hwn a boed yn cael ei achosi oherwydd unrhyw wall, esgeulustod neu gamliwiad yn yr adroddiad neu fel arall. Ni ddylai'r adroddiad hwn gael ei ystyried yn gyngor. Bydd trydydd partion sy'n defnyddio neu'n dibynnu ar y data yn yr adroddiad hwn yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain a byddant yn gyfrifol am wneud eu hasesiad eu hunain a dylent wirio pob cynrychiolaeth, datganiad a gwybodaeth berthnasol gyda'u cynghorwyr proffesiynol eu hunain.

Llywodraethiant gwybodaeth a chyfrinachedd cleifion

Mae'r NJR yn sicrhau y prosesir data'r holl gleifion ac yr ymdrinnir â nhw yn unol â safonau rhyngwladol a'r DU ac o fewn deddfwriaeth y DU ac Ewropeaidd; mae gwarchod a defnyddio rheolau caeth wrth ddefnyddio data cleifion o'r pwys mwyaf. Cesglir data'r NJR trwy raglen cofnodi data ar y we a'u storio a'u prosesu yng nghanolfan ddata Northgate Public Services (NPS). Yn ogystal â chael eu hachredu i ISO 27001 ac ISO 9001, mae NPS hefyd yn cydymffurfio ag Arweinyfr Gwybodaeth Llywodraethiant Gwybodaeth y GIG.

Cesglir data'r NJR trwy raglen cofnodi data ar y we a chaiff y data eu storio a'u prosesu yng nghanolfan Data Northgate Public Services (NPS). Yn ogystal â bod wedi'u hachredu i ISO 27001 ac ISO 9001, mae NPS hefyd yn cydymffurfio â Phhecyn Cymorth Llywodraethiant Gwybodaeth y GIG.

At ddibenion ymchwil a dadansoddi, cysylltir data'r NJR yn flynyddol â data o systemau gofal iechyd eraill gan ddefnyddio dynodwyr cleifion, rhif GIG claf yn bennaf. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Ystadegau ar Gyfnodau mewn Ysbytai (HES), Data-bas Cymru ar Gyfnodau Cleifion (PEDW), data o raglen Mesurau ar Ganlyniadau a Adroddir gan Gleifion NHS England (PROMs), a data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Pwrpas cysylltu â'r setiau data hyn yw ymestyn ac ehangu math y dadansoddiadau y gall yr NJR ymgymryd â nhw heb orfod casglu data ychwanegol. Mae'r cysylltedd hwn wedi'i gymeradwyo gan yr Asiantaeth Iechyd dan Adran 251 Deddf GIG 2006 ar sail gwella diogelwch cleifion a chanlyniadau cleifion: rhydd y gefnogaeth y sail gyfreithiol dros ymgymryd â chysylltedd data'r NJR â'r setiau data iechyd a restrir uchod.

Unwaith y cysylltir y setiau data, tynnir data y gellir adnabod cleifion ohonynt o'r set data newydd fel nad oes modd adnabod unrhyw glaf. Yna bydd y data hyn ar gael i dîm ystadegau a dadansoddi'r NJR ym Mhrifysgol Bryste lle byddir yn prosesu'r data hefyd yn unol â chyfarwyddyd caeth a nodir mewn Polisi Diogelwch Lefel System cydnabyddedig. Cyfarwyddir y gwaith a wneir gan Brifysgol Bryste gan Bwyllgor Llywio'r NJR a Bwrdd Golygyddol yr NJR a chyhoeddir canlyniadau'r dadansoddiadau yn Adroddiad Blynyddol yr NJR ac mewn cyfnodolion proffesiynol. Mae'r holl waith wedi'i seilio ar ddata cyfanredol, yn hytrach nag ar ddata lefel cofnodion unigol. Golyga hyn na ellid adnabod yr un claf.

Manylion cyswllt: Canolfan Wasanaethu'r NJR

Yn Northgate Public Services (UK) Ltd
Peoplebuilding 2
Peoplebuilding Estate
Maylands Avenue
Hemel Hempstead
Hertfordshire
HP2 4NW

Ffôn: 0845 345 9991
Ffacs: 0845 345 9992

E-bost: enquiries@njrcentre.org.uk
Gwefan: www.njrcentre.org.uk



www.njrcentre.org.uk
www.njrreports.org.uk



Gwnaed pob ymdrech adeg cyhoeddi i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn gywir. Os bydd yn ofynnol gwneud newidiadau neu gywiriadau ar ôl cyhoeddi, fe'u cyhoeddir ar wefan yr NJR yn www.njrcentre.org.uk ac ar wefan bwrpasol Adroddiadau'r NJR yn www.njrreports.org.uk.

Yn www.njrreports.org.uk, mae'r ddogfen hon ar gael i'w lawrlwytho ar ffurf PDF ynghyd â data ychwanegol ar gynnydd yr NJR a datblygiadau, gweithgarwch clinigol a gweithgarwch a chanlyniadau impiadau ac ar lefel unedau.

 [/nationaljointregistry](https://www.facebook.com/nationaljointregistry)

 [@jointregistry](https://twitter.com/jointregistry)